Mae'n dra thebyg mai detholiad o'r llyfrau a werthwyd gan John Rees oedd y naw a restrir uchod. Ar lawer ystyr y mae'n siom na welir yn eu plith enw unrhyw gyfrol o farddoniaeth, boed ddetholiad neu waith prydydd cyfoes, megis Ieuan Fardd er enghraifft. Gan fod enw Rees i'w weld mewn cynifer o gyfrolau y mae'n anodd credu na wyddai hwnnw amdano.

* * * *

FEL Y gwyddys yn dda yr oedd Ieuan Fardd yn dipyn o grwydrwr ac nid oedd y ffordd rhwng Caerfyrddin a Llambed yn debyg o fod yn ddieithr iddo.

Mewn llythyr o Lanrhystud a sgrifennodd at y Parch Benjamin Davies, Rhyd-y-gors, yn Nhachwedd, 1780, cawn wybod fel y bu'r bardd ar daith rhwng y ddau le yn cario dau becyn o lyfrau a dillad, wedi cael eu lapio mewn hancesi. Yr oedd yn adeg stormus a bu drwy'r gwynt a'r glaw, yn suddo at ei figyrnau yn y dŵr a'r llaid, cyn cyrraedd New Inn. Y mae'n biti na ddywedodd ymhle y cafodd loches neu lety yno.

Ac yntau'n cario llyfrau, ac y mae'n debyg yn awyddus i werthu rhai, fe fyddai'n beth hollol ddisgwyliadwy iddo alw yn y siop. Oni châi ei ddisychedu yno yr oedd y dafarn megis ar draws y ffordd.



*Spring Garden, New Inn - lle "Rees y Shop",*
*Llun trwy ganiatâd H. Garnsworthy.*

Y cwbl a wyddom yw fod Ieuan wedi cael cymorth dyn o Ledrod weddill y ffordd i Lambed.

Bu John Rees farw yn 1797 ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanfihangel-ar-Arth. Gwelir ei garreg fedd wrth dalcen yr eglwys er bod traul enbyd arni. Ym mlynyddoedd olaf ei oes symudodd i Gaerfyrddin i fyw, yn ŵr tra chefnog a phrofwyd ei ewyllys yng Nghaerfyrddin.

Ei fab, Thomas Rees, etifeddodd y busnes yn New Inn ond ar ôl ei farwolaeth ef yn 1825 cefnodd y teulu ar y siop ac ni bu yr un bri arni wedyn.

Yn 1864 diflannodd pwysigrwydd pentref New Inn megis dros nos wrth i'r rheilffordd gyrraedd Pencader. Gweddnewidiwyd y fasnach cludo calch wrth i lwyth mawr o hwnnw fedru cyrraedd yn hwylus ar hyd y rheilffordd. Daeth teithiau pell y porthmyn hefyd i ben am yr un rheswm.

Un ffair yn unig a gynhaliwyd yn y pentref wedi hynny, un mis Awst. Erbyn 1871 yr oedd y Carrier's Arms wedi cael ei throi yn siop ac yn ystod y degawd olynol collwyd tafarn arall, y Smith's Arms (Gegin Newydd).

Ond ni phallodd y cof am y mawredd a fu yn gyfan gwbl. Pan redai'r goets fawr ar ei siwrna wythnosol rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth hysbysebwyd ei thaith yn y papurau newyddion. Dim ond un lle rhwng Caerfyrddin a Llambed enwid yn yr hysbysebion a hwnnw oedd New Inn.

Wrth edrych ar amserlen bws y TrawsCambria fe welir enw New Inn o hyd fel safle i godi teithwyr ar hyd yr A485. Sawl un, tybed, sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw sy'n sylwi fel mae'r cof yn gwrthod ildio?

---

# STORI'R CAPTEN A GROESODD Y BONT

## Gan Elis Gwyn

YN EI gofiant (1934) i'w ewythr Richard Lloyd, mae gan William George bennod ar 'Y Pentref: Ei Bobl a'i Bethau'. Llanystumdwy oedd y pentref, ac yn y bennod honno mae cyfeiriad at George Jones, Abercin: 'Ond yn y Feathers yr oedd stondin George Jones. . . (ac) os byddai wedi ymdroi yno fwy nag a ddylai, pan gyrhaeddai adref llithrai i'r tŷ drwy'r gegin, gan ofyn i'r morynion wrth basio "Ydi'r ddeddf yn rhuo llawer heno, genod?" Y "ddeddf" yn yr achos hwn, wrth gwrs, oedd y wraig.

Yr oedd ganddo dri mab: un yn amaethwr, y llall yn oruchwyliwr banc, a'r llall yn bregethwr; neu fel y dosberthid hwy gan George Jones, "un i edrych ar ôl y fferm, y llall ar ôl fy arian, a'r llall ar ôl f'enaid".

Y pregethwr, John Jones, oedd yr unig un i gyrraedd y Bywgraffiadur, ac yn yr ysgrif arno dywedir iddo gyhoeddi dau gofiant, i Michael Roberts Pwllheli ac i John Jones Brynrodyn. Ond ni sonnir ei fod hefyd wedi cyhoeddi un arall yn 1898, 'Cofiant Capten Hughes, gan y Parch John Jones FRGS'.

Ymddangosodd adolygiad byr ar y cofiant yn y *Traethodydd*, Ionawr 1899, a digon cwta yw ymateb yr adolygydd: 'Ond beth pe cymerasai yr awdwr galluog a medrus fwy o amser, gan gymeryd hamdden i grynhoi yr holl hen gymeriadau y gŵyr efe mor dda amdanynt, yn Lleyn ac Eifionydd, a'u gosod yn eu lle priodol o gwmpas Capten Hughes, i wneuthur un darlun da ohonynt? Gymaint yn well fuasai'.

Ond yr argraff a geir heddiw o'i ddarllen yw fod y llyfr yn sôn llawer am yr 'hen gymeriadau' ac yn cynnwys pennod ar gyfoedion y capten.

* * * *

ADWAENID y Capten Hugh Hughes fel Hugh Hughes Gellidara, am mai yno yr oedd ei gartref ar ôl priodi Catherine, merch y ffarm. Chwaer iddi hi oedd Elizabeth, gwraig Abercin a mam John Jones.

Yr oedd rheswm da felly pam yr oedd Hugh Hughes yn cerdded ar hyd y ffordd haearn o gyfeiriad Afonwen wrth gyrchu am ei lety yn Abercin, 'un nos Sadwrn dywell' chwedl y cofiant.

Dyma'r stori: 'Aeth yn ddiogel ar hyd-ddi nes cyrraedd y bont haiarn sydd yn croesi yr afon Dwyfor. Pan ar ei chanol, clywai o'r tu ôl iddo sŵn gwyllt a cynhyrfus, ac wedi troi i edrych gwelai mai y tren ydoedd, ac yn dyfod yn ei holl gyflymder. Well! beth oedd i'w wneud? Un peth, a dim ond un peth, a rhaid oedd ei wneyd mewn chwarter eiliad, sef gorwedd i lawr ar ei wastad-gyd rhwng y rheiliau . . . a gorweddodd hefyd, fel y dywedai, a'i ben *at* y peiriant, fel na chaffai felly fantais i afael yn ei ddillad a'i lusgo i ddinystr. Gofynnwyd y cwestiwn iddo lawer gwaith, 'Capten Hughes, ai nid cilio a wnaethoch i *ochr* y bont' pryd yr atebai yn bendant, 'Nage, gorwedd a wnaethum *rhwng* y ddwy *rail*', a dywedai fod y fan honno i'r bont yn llawer mwy diogel na'r ochr'.

Nid rhyfedd i Griffith Hughes, Edern, wrth glywed y stori, ddweud 'Wel, Capten Hughes, taflu fy hun dros y bont i'r afon y buaswn i', ond mae'r cofiannydd yn disgrifio'r digwyddiad ac eraill o 'ddamweiniau a gwaredigaethau' y Capten yn hollol sobr a heb awgrym o wên yn ei eiriau.

Fel morwr ar longau Porthmadog y dechreuodd Hugh Hughes ei yrfa, a hyd yn oed ar ei fordaith gyntaf, 'aeth y llong i lawr ar un o'r banciau tywod ger tu yr Iwerddon, pryd y dringodd Hugh i fyny i'r rigging, ac y clymodd ei hun yn *sound* wrth un o'r iardiau, lle bu am hir amser . . . a dywedai mai darllen ei Feibl, yr hwn oedd ganddo yn ei logell, a gweddio bob yn ail, a wnai trwy yr holl amser y bu yn rhwym wrth yr iard.'

Mae'n debyg, erbyn heddiw, fod sobrwydd parchus John Jones yn ei agwedd at straeon Hugh Hughes yn ddigrifach na manylrwydd dychymyg y capten ei hun, a oedd yn gyfrwysach o lawer na'i wrandawyr hygoelus.

Diddorol oedd y term 'ffug-chwedl' am y nofel yn y ganrif ddiwethaf, fel petai 'gwir' chwedlau'n bethau ffeithiol a di-gwestiwn. Cyfansoddi o gwmpas rhyw achlysuron cyffrous yr oedd y capten. Er enghraifft, mae'n siŵr iddo feddwl lawer gwaith beth a wnâi petai raid iddo rywdro ddringo i ben y mast i'w arbed ei hun.

Byddai'n gweddio wrth gwrs, ac efallai'n darllen ei Feibl yn ôl disgwyliadau ei oes a'i gynulleidfa, ond yn y fersiwn a gafodd y cofiannydd bu ar ben y mast 'am hir amser, ac yn cael ei ysgytian yn ddidrugaredd gan ysgwydiadau ffyrnig y llong, fel yr oedd yn rhyfeddod fod ei ymysgaroedd wedi dal heb dori'.

Eto medrai 'ddarllen ei Feibl' a 'gweddio bob yn ail', ac nid yw'r cofiannydd yn mynegi unrhyw amheuaeth. Mewn gwirionedd, gwasanaethu'r chwedleuwyr oedd swyddogaeth John Jones.

* * * *

YR OEDD digon o amser i Hugh Hughes adeiladu ar ei stori a manylu arni cyn dyfod adref o'r môr, a hyd yn oed ynghylch digwyddiad y tren a'r bont 'ymhen hir a hwyr y mynegodd am y trychineb'.

Croesais innau'r bont honno lawer gwaith (a byddai'r postman yn gwneud hynny bron bob dydd) pan oeddwn yn byw yn ei hymyl ar lan y môr. Yn naturiol, yr oedd rhyw 'beth petai' yn codi i feddwl rhywun weithiau, yn enwedig ar noson dywyll. Mi ddywedwn i mai o'r 'beth petai' y perffeithiwyd chwedlau Hugh Hughes.

Gyda llaw, rhoddwyd canllawiau concrid ar y bont yn gymharol ddiweddar, yn lle'r rhai haearn a fyddai yno gynt, ond yr un faint o le sydd rhyngddynt a'r lein, sef digon.